ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD
Rhagfyr 2019

Penblwydd Arbennig Ysgol Eifionydd – 1894 – 2019

Ar b'nawn Mawrth gwlyb iawn y 10fed o Ragfyr cynhaliwyd p'nawn coffi difyr iawn yma yn yr ysgol a rhoddwyd gwaddhoddiad i gyn athrawon a staff yr ysgol i ddod draw am baned a mince pei. Braf oedd gweld cymaint o gyn athrawon yn sgwrsio a hel straeon am yr hen ddyddiau gyda'r athrawon presenol. Bu i'r Pennaeth – Mr. Bowen estyn croeso cynnes i bawb a chafwyd perfformiad cerddorol gan Emma Buckley a Noa Griffiths a diolch i'r cyn bennaeth Mr. G. R. Hughes am ei eiriau caredig. Diolch hefyd i Mrs. Gwyneth Owen a Mrs. Olwen Roberts am drefu'r danteithion a'r arddangosfa.

Bu cryn graffu ar gasgliad o hen luniau ac ati ac ymysg y casgliad roedd 'pendant' i gofnodi ymweliad tîm rygbi o Chinnor ger Rhydychen â'r ysgol yn 1978. Tybed a oes rhai o ddarllenwyr Yr Wylan yn cofio'r achlysur arbennig yma – efallai wedi chwarae yn y gêm – anfonwch air.

Diwrnod Plant Mewn Angen – 15 Tachwedd, 2019 - Yn unol â'r arfer cafodd y disgyblion gyfle i fwynhau diwrnod yn gwisgo dillad o'u dewis hwy ar ddiwrnod Plant mewn Angen. Llwyddwyd i godi £339.65 tuag at yr elusen hynod boblogaidd yma.

Ymgyrch Nadolig - 2019. Rydym fel ysgol yn ceisio casglu 1001 o eitemau ar gyfer y Banc Bwyd lleol erbyn y Nadolig a byddem yn falch dros ben am unrhyw gyfraniad. Croeso i chwi ddod â bwyd (gyda digon o ddyddiad arnynt) neu eitemau glendid personol i Swyddfa Ysgol Eifionydd. Diolch. Hyd at ganol mis Rhagfyr rydym wedi casglu 547 o eitemau.

Ymgyrch Nadolig 2019

Her 1001 o eitemau

Rydym fel ysgol yn ceisio casglu 1001 o eitemau ar gyfer y **Banc Bwyd** lleol cyn y Nadolig.

Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad.

Ysgol Eifionydd Porthmadog

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda